Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cynlluniau Pensiwn

Tachwedd 2025

# 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cynlluniau Pensiwn[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mehefin 2025. Fe'i noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**2.** Mae teitl hir y Bil yn nodi ei fod yn Fil i wneud darpariaeth ynghylch cynlluniau pensiwn ac at ddibenion cysylltiedig.[2]

**3.** Yn ôl nodiadau esboniadol y Bil:

> "*The Pension Schemes Bill aims to strengthen pension investment by supporting around 20 million people who could benefit from the reforms through better outcomes and greater value in private-sector pension schemes, increasing the amount available to them. The Bill provides for consolidation in the pensions market and focuses on value and outcomes for members and enables pension schemes to invest in a wider range of assets.*
>
> *The Bill will also enable reforms to investment management in the Local Government Pension Scheme (LGPS) in England and Wales. The aim of these reforms is to ensure that the management of LGPS investments delivers the full benefits of scale, including greater expertise, better value for money and improved resilience.*"[3]

**4.** Cwblhawyd Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Medi 2025. Disgwylir i Gyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ddechrau ar 3 Rhagfyr 2025.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol lle mae unrhyw un o Filiau'r DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n ystyried materion datganoledig (darpariaeth berthnasol).

[1] Y Bil Cynlluniau Pensiwn (Bil HC 255)
[2] Y Bil Cynlluniau Pensiwn, fel y'i cyflwynwyd (Bil HC 255)
[3] Y Bil Cynlluniau Pensiwn: Nodiadau Esboniadol, paragraffau 1 i 2

**6.** Ar 26 Mehefin 2025, gosododd Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (yr Ysgrifennydd Cabinet) femorandwm cydsyniad deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[4]

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adrodd ar y Memorandwm erbyn 3 Hydref 2025.[5] Estynnwyd y dyddiad hwn, wedi hynny, i 21 Tachwedd 2025.[6]

## Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

**8.** Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodir ym mharagraffau 10 i 19 o'r Memorandwm, mae angen cydsyniad ar gyfer y cymalau canlynol o'r Bil fel y'i cyflwynwyd:

- cymal 1 – cwmnïau cronfeydd asedau;
- cymal 2 – rheoli asedau;
- cymal 4 – adolygiadau o lywodraethiant rheolwr cynllun; a hefyd
- cymal 5 – uno cronfeydd.[7]

## Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

**9.** Fel y nodwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm, mae barn Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

> "*Mae'r holl fesurau yn y Bil yn gymwys i Gymru ac yn ymwneud â phensiynau personol a phensiynau galwedigaethol, sy'n faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, barn Llywodraeth y DU yw bod darpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cymalau 1,2,4 a 5 yn benodol, yn addasu swyddogaethau a gedwir yn ôl sy'n arferadwy gan Awdurdodau Cymreig*

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cynlluniau Pensiwn, 26 Mehefin 2025
[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn, Gorffennaf 2025
[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn, Medi 2025
[7] Y Memorandwm, paragraffau 10 i 19

> *Datganoledig ac felly yn sbarduno'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru"*.[8]

**10.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan ei bod yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU.[9]

## Pwerau dirprwyedig yn y Bil

**11.** Fel y nodwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm, mae cymalau 1, 2, 4 a 5 o'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy Reoliadau'r Cynllun i addasu'r ffordd y mae cyrff gweinyddu'n gweithredu mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.[10]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**12.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r rhesymau canlynol dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil:

> "*Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwll pensiwn sefydledig sydd wedi bod yn gweithio i ddod â manteision maint i drefniant cynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Bydd deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU yn galluogi parhau i ddatblygu pwll penodol i Gymru ac yn cryfhau'r manteision maint ymhellach, gan gynnwys mwy o arbenigedd, gwell gwerth am arian a gwell gwydnwch.*
>
> *Mae'r Bil hwn yn ymdrin â materion a gedwir yn ôl ond wrth wneud hynny mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn eu galluogi i addasu swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru, felly mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig. Am y rheswm hwn, mae'r Bil hwn yn galluogi'r amcanion polisi i gael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac mae er budd gorau Cymru i gymryd darpariaethau yn y Bil hwn."*[11]

[8] Y Memorandwm, paragraff 20
[9] Y Memorandwm, paragraff 20
[10] Y Memorandwm, paragraff 14
[11] Y Memorandwm, paragraffau 21 a 22

**13.** Daw'r Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

> *"Yn fy marn i, mae'n briodol i'r darpariaethau yn y Bil hwn gan y DU addasu swyddogaethau Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Mae hyn oherwydd eu bod yn creu pwerau a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i addasu swyddogaethau Awdurdodau Cymreig Datganoledig dim ond mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol,. Bydd y pwerau hyn yn galluogi pwll pensiwn Cymru i barhau i ddatblygu ac i elwa ar y manteision maint, gan gynnwys mwy o arbenigedd a gwydnwch a gwell gwerth am arian. Felly, rwy'n argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."* [12]

### Goblygiadau ariannol

**14.** Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, bydd y goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r darpariaethau hyn ar gyfer awdurdodau gweinyddu yn cael eu talu o gronfeydd eu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.[13]

# 2. Trafodaethau'r Pwyllgor

**15.** Gwnaethom drafod y Memorandwm ar 15 Medi 2025[14] a chytuno ar ein hadroddiad ar 10 Tachwedd 2025[15].

## Ein barn ni

### Cymhwysedd deddfwriaethol

**16.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, fel y nodir yn y Memorandwm.

**17.** Nodwn, hefyd, safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 29.

---

[12] Y Memorandwm, paragraff 24
[13] Y Memorandwm, paragraff 23
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Medi 2025
[15] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Tachwedd 2025

## Pwerau dirprwyedig

**18.** Nodwn, er nad yw'r Bil yn dirprwyo unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru, fod cymalau 1, 2, 4 a 5 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy Reoliadau'r Cynllun i addasu'r ffordd y mae cyrff gweinyddu'n gweithredu mewn perthynas â'r Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol.

**19.** Nodwn, yn benodol, y bydd y pŵer yng nghymal 5 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i uno dau neu fwy o gronfeydd pensiwn, gan gynnwys uno gorfodol. Pe bai cronfeydd yn cael eu huno yng Nghymru, byddai hyn yn cael yr effaith o ddileu swyddogaethau o un o awdurdodau datganoledig Cymru.